| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Ebrill 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2014-15 Cyngor Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad o'r enw 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2014 – 15 Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae’n amgaeedig. Mae'r adroddiad yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni’r Cyngor yn 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn bod yr adroddiad mewnol hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor hwn yn flynyddol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni’r Cyngor 2014/15, ac at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn crynhoi’r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion sy’n deillio o'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canfod bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ceisiadau grant 2014/15.

Mae’r prif addasiad a nodwyd yn ymwneud â Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Nodwyd y diwygiad o £78,791 gan Lywodraeth Cymru, ar ôl i’r hawliad gael ei gadarnhau i ddechrau gan Swyddfa Archwilio Cymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd y ffigur hwn yn ymwneud â'r hawliad yn 2013/14 ac felly, roedd yn fater amseru rhwng blynyddoedd ariannol ac ni arweiniodd at golled o gymhorthdal i'r Cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Cyllid Grant yn hanfodol wrth ariannu'r gwariant mewn meysydd megis addysg ac ysgolion, priffyrdd a'r amgylchedd ac adfywio. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu i roi sicrwydd bod trefniadau digonol yn eu lle o fewn y Cyngor i weinyddu'r broses grant.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2014-15 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid yw'n berthnasol i argymhellion yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Prif Swyddog Cyllid ac uwch aelodau o'r Adran Gyllid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor at ddefnydd mewnol y Cyngor er mwyn helpu iddo ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o risg neu wendid. Mae'n braf nodi bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith. Mae argymhellion a sylwadau yn yr adroddiad wedi cael eu hadolygu a'u gweithredu arnynt lle bo hynny'n bosibl. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu effaith, neu eu lleihau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni.